

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Profion sgrinio cyn geni

Mae'n cynnwys gwybodaeth am sgrinio DNA
di-gell y ffetws (cffDNA) i fenywod sy'n
D negatif.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Mae'r wybodaeth hon ar gael yn
Gymraeg, Saesneg, print bras a Braille.
Gofynnwch i'ch bydwraig.**

**Mae fersiynau hawdd eu deall, sain ac
laith Arwyddion Prydain ar gael yn
icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni**



icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

Ebrill 2024

IFW 4 Rifyn

Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys yr adrannau canlynol.

Adran 1

Cyflwyniad i brofion sgrinio cyn geni

Adran 2

Eich grŵp gwaed a beichiogrwydd

Adran 3

Heintiau yn ystod beichiogrwydd

Adran 4

Sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd

Adran 5

Sganiau uwchsain yn ystod beichiogrwydd

Adran 6

Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd

Adran 7

Profion mewnwthiol

Adran 8

Rhagor o wybodaeth

Adran 1 – Cyflwyniad i brofion sgrinio cyn geni

1

Eich dewisiadau yn ystod beichiogrwydd

Yn ystod eich beichiogrwydd, cewch gynnig nifer o brofion sgrinio gwahanol. Yma cewch wybodaeth am y profion sgrinio, a fydd yn eich helpu i benderfynu a ydych am gael rhai, neu bob un, o'r profion ai peidio. Byddwch yn cael y cyfle i siarad â'ch bydwraig am y profion.

Mae eich rhif GIG yn unigryw i chi ac mae'r rhif hwn yn eich adnabod ar systemau cyfrifiadurol y GIG. Os oes gennych gopi o'ch rhif GIG, sicrhewch fod y rhif ar gael pan fyddwch yn gweld y fydwraig am y tro cyntaf neu'r tro cyntaf y byddwch yn mynd i'r ysbyty ar gyfer eich gofal mamolaeth.

Beth yw profion sgrinio?

Gall **profion sgrinio** helpu i ganfod rhai o'r cyflyrau sydd gennych chi neu'ch babi. Maent yn dangos pa siawns sydd bod y cyflwr gennych chi neu'r babi.

Nid ydynt yn dangos yn sicr a oes gennych chi neu'r babi y cyflwr a gaiff ei sgrinio.

Mae'r profion a gynnigir yn cynnwys profion gwaed a sganiau uwchsain.

Weithiau, gall y prawf gwaed neu'r sgan uwchsain roi canlyniad aneglur ac efallai y byddwch yn cael cynnig rhagor o brofion.

Os yw canlyniad prawf sgrinio'n dangos ei bod yn fwy tebygol eich bod chi, neu'ch babi, â chyflwr penodol, efallai y cewch gynnig prawf sgrinio arall neu brawf mewnwthiol, er enghraifft amniosentesis. Mae profion mewnwthiol yn rhoi canlyniadau mwy sicr, ond mae siawns fach y gallant achosi camesgoriad. Am y rheswm hwn, dim ond pan fo siawns uwch o gael cyflwr y cynigir y profion hyn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am brofion mewnwthiol yn adran 7 o'r llyfryn hwn.

Gall profion sgrinio fethu canfod y cyflwr y maent yn sgrinio amdano. Gall y fydwraig ddweud wrthyh pa mor aml y gall hyn ddigwydd gyda'r profion.

Pa brofion sydd ar gael?

Caiff y profion sgrinio canlynol eu cynnig i chi.

Yn gynnar yn ystod beichiogrwydd, fel arfer cyn 14 wythnos

Cewch gynnig profion gwaed i ganfod:

- heintiau a allai eich niweidio chi a'ch babi (y rhain yw HIV, hepatitis B a sifflis)
- eich grŵp gwaed a'ch grŵp Rhesws (Rh) D, ac a oes gwrthgyrff yn eich gwaed, ac
- rhai anhwylderau gwaed a etifeddir, fel clefyd y crymangelloedd a thalasaemia.

Gellir cael yr holl brofion hyn ar yr un pryd. Gallwch ddewis pa brofion a gynhelir. Bydd eich bydwraig yn dweud wrthyh lle y gellir cynnal y profion.

Byddwch yn cael cynnig y canlynol hefyd:

- sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Fel arfer ar ôl 11 i 14 wythnos

Sgan uwchsain i weld:

- ers faint o wythnosau rydych wedi bod yn feichiog
- a yw calon eich babi yn curo, ac
- a ydych yn cael mwy nag un babi.

Ar ôl 18 i 20 wythnos

Gallwch gael sgan anomaledd y ffetws i weld y ffordd y mae eich babi'n datblygu.

Penderfynu a ydych am gael y profion

Eich dewis chi yw sgrinio. Gall fod yn anodd penderfynu pa brofion i'w cael. Nid yw rhai menywod am wybod a oes ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd a allai effeithio arnyn nhw neu eu babi. Bydd eraill am wybod a oes ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd a allai effeithio arnyn nhw neu eu babi er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar driniaeth neu, os oes canfyddiadau heb esboniad, i baratoi ar gyfer yr enedigaeth neu ystyried dod â'r beichiogrwydd i ben.

Cymerwch amser i feddwl cyn i chi benderfynu. Gallwch siarad am y profion â'ch bydwraig, a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Pan fyddwch wedi dewis pa brofion rydych am eu cael, bydd y fydwraig yn gwneud trefniadau ar eich rhan.

Ble fydd y profion yn cael eu cynnal?

Bydd eich bydwraig yn dweud wrthyh lle y gallwch gael y profion.

Canlyniadau

Sut y byddaf yn cael canlyniadau fy mhroffion sgrinio?

Bydd eich bydwraig yn dweud wrthyh sut a phryd y byddwch yn cael canlyniadau'ch profion.

A fydd fy nghanlyniadau'n gyfrinachol?

Mae'r GIG yn cadw canlyniadau'r holl brofion yn gyfrinachol. Mae polisïau ysbytai yn amrywio o ran faint o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â mynediad at ganlyniadau eich profion. Bydd eich bydwraig yn gallu esbonio'r trefniadau lleol i chi.

Cofiwch

- Chi sy'n dewis pa brofion rydych am eu cael.
- Ni chaiff prawf ei gynnal oni bai eich bod yn cytuno.
- Efallai na chaiff nodyn atgoffa ei anfon atoch os na fyddwch yn dod am brawf.

Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl am eich dewisiadau. Os penderfynwch gael prawf ac yna newid eich meddwl cyn ei gael, cofiwch ddweud wrth eich bydwraig fel y gall wneud nodyn yn eich cofnodion mamolaeth.

Adran 2 – Eich grŵp gwaed a beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gellir eu gwneud yn ystod beichiogrwydd er mwyn:

- canfod eich grŵp gwaed ABO
- canfod eich grŵp D (a elwir weithiau'n grŵp RhD/Rhesws D), a
- chwilio am wrthgyrff.

Mae angen i'r bobl sy'n gofalu amdanoch yn ystod beichiogrwydd wybod eich grŵp gwaed (math o waed) rhag ofn y bydd angen trallwysiad gwaed arnoch. Mae'r prawf sgrinio ar gyfer grŵp gwaed a gwrthgyrff celloedd coch yn gywir iawn. Weithiau bydd angen profion gwaed ychwanegol arnoch os canfyddir gwrthgyrff.

Y prawf

Gellir gwneud y prawf hwn gyda phroffion gwaed eraill, fel arfer yn gynnar yn ystod beichiogrwydd. Mae'n cael ei gynnis i chi eto o amgylch 28ain wythnos o feichiogrwydd.

Beth fydd eich canlyniad prawf grŵp gwaed yn ei ddweud wrthyh

Bydd eich grŵp gwaed yn un o'r pedwar prif grŵp canlynol.

- Grŵp O
- Grŵp A
- Grŵp B
- Grŵp AB

Yn eich grŵp gwaed, byddwch naill ai'n D positif neu'n D negatif. Er enghraifft, efallai y bydd eich grŵp gwaed cyffredinol yn cael ei ysgrifennu fel 'O RhD positif'.

Ynglŷn â'ch gwaed

Mae eich gwaed yn cynnwys:

- celloedd coch y gwaed
- celloedd gwyn y gwaed, a
- phlatennau.

Mae'r rhain i'w canfod mewn hylif o'r enw plasma. Mae eich grŵp gwaed yn cael ei adnabod gan antigenau a gwrthgyrff wedi'u cynnwys yn eich gwaed.

- Mae antigenau yn foleciwlau protein a geir ar wyneb celloedd coch y gwaed.
- Mae gwrthgyrff yn broteinau a geir yn rhan hylif y gwaed o'r enw plasma. Mae gwrthgyrff yn rhan o amddiffyniad naturiol eich corff.

Weithiau mae gan gelloedd coch y gwaed antigen arall o'r enw antigen D.

- Os yw hwn yn bresennol, gelwir eich grŵp gwaed yn D positif.
- Os nad yw'n bresennol yn eich gwaed, gelwir eich grŵp gwaed yn D negatif.
- Bydd y rhan fwyaf o bobl, 85% (85 allan o 100) yn D positif.

Beth yw gwrthgyrff celloedd coch?

Mae gwrthgyrff celloedd coch yn rhan o amddiffyniad naturiol eich corff ac maent yn ymladd yn erbyn unrhyw beth y mae'r corff yn credu sy'n estron. Efallai y byddwch yn ffurfio gwrthgyrff os bydd celloedd coch sydd â grŵp gwaed sy'n wahanol i'ch un chi, yn mynd i mewn i'ch llif gwaed. Gall hyn ddigwydd oherwydd trallwysiad gwaed neu oddi wrth eich babi yn ystod beichiogrwydd.

Gall gwrthgyrff celloedd coch drosglwyddo o'ch llif gwaed i waed eich babi, lle gall gwrthgyrff gwrth-D ddatblygu. Weithiau mae hyn yn gallu achosi cyflwr prin o'r enw clefyd haemolytig y ffetws a'r babi newydd-anedig (HDFN), gan wneud eich babi'n sâl. Fel arfer, mae angen i fabanod sydd â'r cyflwr prin hwn gael eu derbyn i'r ysbyty.

Beth os ydych yn D negatif?

- Os yw eich grŵp gwaed yn D negatif a grŵp gwaed eich babi yn D positif efallai y byddwch yn datblygu gwrthgyrff gwrth-D (os ydych yn D positif, nid yw'r broblem hon fel arfer yn digwydd).
- Os ydych yn D negatif, byddwch yn cael cynnig prawf gwaed o amgylch 16eg wythnos o feichiogrwydd. Gelwir y prawf hwn yn brawf DNA di-gell y ffetws (cffDNA) a bydd yn dweud wrthy ch a yw'ch babi yn D negatif neu'n D positif.

Beth yw prawf DNA di-gell y ffetws (cffDNA)?

Os ydych yn D negatif, gall y prawf DNA di-gell y ffetws ragweld:

- a yw eich babi yn D negatif (yr un grŵp gwaed â chi), neu'n
- D positif.

Bydd y prawf hwn yn edrych ar symiau bach o DNA eich babi yn eich gwaed. DNA yw'r wybodaeth genetig y tu mewn i gelloedd y corff. Os ydych yn D negatif a bod eich babi'n D positif byddwch yn cael cynnig pigiadau imiwnoglobwlin gwrth-D. Cyfeirir at hyn fel gwrth-D yn y wybodaeth hon. Bydd hyn yn lleihau HDFN rhag datblygu yn sylweddol.

Beth yw pigiadau gwrth-D?

Bydd gwrth-D yn helpu i atal gwrthgyrff rhag cael eu creu os yw gwaed eich babi wedi mynd i mewn i'ch llif gwaed, ac felly bydd yn lleihau'r siawns o glefyd haemolytig y babi newydd-anedig. Mae pigiadau gwrth-D wedi'u gwneud o blasma, sef rhan hylif y gwaed sy'n cludo ocsigen a chelloedd coch o amgylch eich corff. Mae'r plasma a ddefnyddir i wneud gwrth-D yn cael ei gasglu gan roddwyr gwaed. Efallai y bydd angen i chi gael cynnig pigiadau gwrth-D mewn beichiogrwydd yn y dyfodol.

A yw gwrth-D yn ddiogel?

Ydy. Gall pigiadau gwrth-D achosi rhywfaint o boen ysgafn pan fyddant yn cael eu chwistrellu i'r cyhyr. Weithiau gall pigiadau gwrth-D achosi adweithiau alergaidd. Mae sut y mae'n cael ei gynhyrchu'n cael ei reoli'n llym, felly mae'r risg o feirws hysbys yn cael ei drosglwyddo i chi o roddwr yn isel iawn.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer fy ngrŵp gwaed a gwrthgyrff?

Os byddwch yn cael y prawf hwn, byddwch yn gwybod eich grŵp gwaed ac a ydych yn D positif neu'n D negatif.

Mae'n llai cyffredin bod yn D negatif. Os ydych yn D negatif, byddwch yn cael cynnig prawf DNA di-gell y ffetws. Os yw eich babi'n D negatif ni fydddech yn cael cynnig pigiadau gwrth-D.

Bydd y prawf yn chwilio am wrthgyrff hefyd. Mae'n bwysig gwybod am y rhain fel y gellid rhoi trallwysiad gwaed yn ddiogel os bydd ei angen arnoch. Yn anaml iawn, mae gwrthgyrff sy'n bresennol yn eich gwaed yn achosi risg i'ch babi. Os bydd hyn yn digwydd gellir rhoi gofal arbenigol i chi a'ch babi.

Beth yw anfanteision cael prawf sgrinio ar gyfer fy ngrŵp gwaed a gwrthgyrff?

Mae sgrinio yn brawf gwaed syml. Byddai'r unig risg yr un fath â chael unrhyw brawf gwaed.

Os ydych yn gwybod eich bod yn D negatif

Cysylltwch â'ch bydwraig neu eich meddyg ysbyty (obstetregydd) cyn gynted â phosibl i'w hatgoffa eich bod yn D negatif os byddwch yn:

- gwaedu o'r wain ar ôl 12 wythnos o feichiogrwydd
- cael camesgoriad ar ôl 12 wythnos o feichiogrwydd, neu'n
- dioddef anaf i'ch abdomen (er enghraifft, anaf o wregys diogelwch mewn damwain car neu drwy syrthio).

Os bydd unrhyw un o'r pethau hyn yn digwydd, efallai y bydd eich corff yn dechrau cynhyrchu gwrthgyrff ac efallai y bydd angen pigiad gwrth-D arnoch.

Rhesymau eraill dros gael cynnig pigiad gwrth-D

Dylech gael cynnig pigiad gwrth-D i leihau'r risg y byddwch yn cynhyrchu gwrthgyrff. Mae hyn yn cynnwys:

- os byddwch yn cael samplu filws corionig (CVS) neu amniosentesis (gweler Adran 7 i gael gwybodaeth am brofion mewnwthiol)
- os byddwch yn cael camesgoriad
- os byddwch yn cael beichiogrwydd ectopig
- os nad yw grŵp gwaed eich babi yn hysbys, neu
- ar ôl i'ch babi gael ei eni, canfyddir ei fod yn D positif.

Adran 3 – Heintiau yn ystod beichiogrwydd

Amddiffyn eich babi

Mae'r adran hon yn esbonio rhai o'r heintiau a all achosi cymhlethododau i chi neu'ch babi, ond y gellir eu trin.

Y rhain yw:

- feirws imiwnoddiffygiant dynol (HIV)
- hepatitis B, a
- sifflis.

Mae profion sgrinio ar gyfer yr holl heintiau hyn a bydd eich bydwraig yn cynnig y rhain i chi.

Pam yr argymhellir y profion?

Os oes gennych un o'r heintiau hyn ac nid yw'n cael ei drin, gallech drosglwyddo'r haint i'ch babi yn ystod eich beichiogrwydd, yr enedigaeth neu ar ôl yr enedigaeth.

Cynigir ac argymhellir profion sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis ym mhob beichiogrwydd.

Gall yr holl heintiau hyn fod yn ddifrifol ac, os na chânt eu trin, gallant achosi cymhlethododau i chi neu'ch babi. Ni fydd y rhan fwyaf o bobl sydd â'r heintiau hyn yn teimlo'n sâl ac ni fyddant yn gwybod bod ganddynt yr heintiau hyn. Os oes gennych un o'r heintiau hyn, bydd triniaeth yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y byddwch yn ei drosglwyddo i'ch babi.

Y prawf

Prawf gwaed yw'r prawf y gellir ei wneud gyda phroffion gwaed eraill, fel arfer yn gynnar yn ystod beichiogrwydd.

Sut y cynhelir y profion?

Gellir cynnal yr holl brofion sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis ar un sampl gwaed. Gallwch ddewis pa brofion a gynhelir. Dim ond ychydig bach o waed sydd ei angen.

Pam y dylwn gael y prawf?

Drwy dderbyn prawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis, rydych yn penderfynu cael gwybod a oes gennych yr haint fel y gellir gwneud popeth sy'n bosibl i amddiffyn eich babi.

Beth os penderfynaf beidio â chael prawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifflis?

Os byddwch yn penderfynu peidio â chael prawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifflis, bydd eich bydwraig yn gofyn i chi pam er mwyn sicrhau eich bod wedi deall y rhesymau dros y prawf. Yn ddiweddarach yn ystod eich beichiogrwydd, fel arfer cyn 21 wythnos, bydd eich bydwraig yn gofyn a ydych am drafod y prawf sgrinio ac yn ei gynnig i chi eto.

Gallwch ofyn am brawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifflis ar unrhyw adeg yn ystod eich beichiogrwydd.

Os ydych yn poeni, pan fyddwch yn feichiog, y gallech fod wedi dal HIV, hepatitis B, sifflis neu glefydau eraill y gellir eu trosglwyddo rhwng pobl, gallwch ofyn i'ch bydwraig gynnal prawf arall ar unrhyw adeg yn ystod eich beichiogrwydd. Hefyd, gallwch gael profion cyfrinachol o'ch clinig iechyd rhywiol agosaf.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gallwch siarad â'ch clinig iechyd rhywiol GIG agosaf – ffoniwch eich ysbyty lleol a gofynnwch a y clinig iechyd rhywiol.

Feirws imiwnoddiffygiant dynol (HIV)

Beth yw HIV?

Mae HIV yn feirws sy'n ymosod ar y system imiwnedd. Gall arwain at syndrom diffyg imiwnedd caffaeledig (AIDS). Gall person sy'n byw gyda edrych a theimlo'n iach am lawer o flynyddoedd. Mae'n bosibl na fyddant yn gwybod bod ganddynt yr haint oni bai eu bod yn cael prawf gwaed. Fodd bynnag, gellir trosglwyddo HIV i'r babi yn ystod beichiogrwydd, yr enedigaeth neu wrth fwydo ar y fron.

Sut y gellir dal HIV?

Gellir dal HIV drwy:

- fam sydd â'r haint yn ei drosglwyddo i'w babi yn ystod beichiogrwydd neu'r enedigaeth neu wrth fwydo ar y fron
- cael gweithgarwch rhywiol heb ddiogelwch (heb condom) gyda rhywun sydd â HIV
- trallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed sy'n cynnwys HIV (profir y rhain yn y DU, ond nid ym mhob gwlad arall)
- rhannu nodwyddau a chyfarpar chwistrellu wedi'u heintio
- dod i gysylltiad â nodwyddau budr a ddefnyddiwyd wrth dyllu'r corff a thatwio.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer HIV yn ystod beichiogrwydd?

Bydd 25% (1 mewn 4) o fabanod a enir i famau sydd â haint HIV heb ei drin, neu nad ydynt yn gwybod bod ganddynt haint, yn cael eu heintio â HIV.

Os canfyddir bod gennych HIV, gellir gwneud nifer o bethau i leihau'r tebygolrwydd y byddwch yn ei drosglwyddo i'ch babi. Cewch gynnig triniaeth a gofal arbenigol. Hefyd, gall y driniaeth helpu i'ch cadw'n iachach.

Os canfyddir bod gennych HIV ac rydych yn derbyn y driniaeth a gynnigir, bydd y risg y bydd HIV gan eich babi yn cael ei lleihau i 0.3% neu lai (1 mewn 300 neu lai).

Beth yw anafanteision cael prawf sgrinio ar gyfer HIV yn ystod beichiogrwydd?

Nid oes adeg dda i gael gwybod eich bod yn HIV positif. Fodd bynnag, os cewch wybod pan fyddwch yn feichiog, gallwch gael triniaeth er mwyn helpu i'ch atal rhag trosglwyddo'r haint i'ch babi.

A ddylwn gael y prawf sgrinio ar gyfer HIV?

Dim ond chi all benderfynu a ddylid cael y prawf ai peidio. Mae pob ysbyty yng Nghymru yn argymhell y prawf sgrinio ar gyfer HIV oherwydd ei bod yn bosibl lleihau'r tebygolrwydd y bydd eich babi yn cael yr haint os ydych yn HIV positif.

Beth fydd canlyniad y prawf sgrinio'n ei ddweud wrthyf?

Mae canlyniad prawf sgrinio negyddol yn dweud wrthyf ei bod yn annhebygol iawn bod gennych haint HIV.

Os ydych wedi dal HIV yn ystod yr wythnosau cyn y cymerir y sampl gwaed, mae'n bosibl na fydd eich corff wedi dechrau cynhyrchu gwrthgyrff ac ni fydd y prawf yn gallu canfod yr haint.

Mae'n bwysig cofio y gallwch gael HIV pan fyddwch yn feichiog. Os byddwch yn newid eich partner rhywiol pan fyddwch yn feichiog, dylech ddefnyddio condom.

Beth yw'r prawf diagnostig ar gyfer HIV?

Weithiau, gall y prawf gwaed HIV roi canlyniad aneglur (adweithiol) a bydd fod angen rhagor o brofion i gadarnhau nad oes gennych yr haint.

Os yw'r prawf sgrinio'n dangos eich bod yn HIV positif, byddwch yn cael prawf gwaed arall i gadarnhau'r haint ac arwain yr opsiynau o ran triniaeth.

Beth os oes gennyf HIV?

Os yw'r prawf yn dangos bod gennych HIV, byddwch yn gallu cynllunio gyda'ch bydwraig neu'ch meddyg ysbyty beth sy'n digwydd nesaf. Byddwch yn cael cynnig gofal a thriniaeth feddygol arbenigol i helpu gyda'r haint. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg y bydd eich babi yn dal yr haint.

Bydd y driniaeth yn cynnwys therapi cyffuriau.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am HIV o'r canlynol:

111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/h/article/hivandaids?locale=cy&term=A

Hepatitis B

Beth yw hepatitis B?

Mae hepatitis B yn feirws sy'n effeithio ar yr afu. Nid yw llawer o bobl sydd â hepatitis B yn gwybod ei fod ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o oedolion sydd â hepatitis B yn gwella'n llwyr, ond mae nifer bach yn cludo hepatitis B. Gall pobl sy'n ei gludo ddatblygu clefyd difrifol yr afu.

Os oes gan fenyw feichiog hepatitis B, gall ei babi fod yn agored i'r haint yn ystod yr enedigaeth. Gall babi sy'n yr haint ei gael am oes a gall fod mewn perygl o ddatblygu clefyd yr afu.

Sut y gellir dal hepatitis B?

Gellir dal hepatitis B drwy:

- fam sydd â hepatitis B sy'n ei drosglwyddo i'w babi yn ystod yr enedigaeth
- cael gweithgarwch rhywiol heb ddiogelwch (heb gondom) gyda rhywun sydd â'r haint
- dod i gysylltiad â hylifau corff rhywun sydd â'r haint
- dod i gysylltiad â nodwyddau budr a ddefnyddiwyd wrth dyllu'r corff a thatwio
- rhannu nodwyddau a chyfarpar chwistrellu wedi'u heintio
- trallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed sy'n cynnwys hepatitis B (profir y rhain yn y DU, ond nid ym mhob gwlad arall)
- byw am gyfnod hir mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â'r haint.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer hepatitis B yn ystod beichiogrwydd?

Mae'n bwysig cael prawf ar gyfer hepatitis B oherwydd os bydd meddygon yn gwybod am yr haint cyn i fabi gael ei eni, gall cwrs o frechiadau sy'n cael ei ddechrau'n fuan ar ôl yr enedigaeth helpu i atal eich babi rhag cael yr haint. Mae'r brechiadau'n amddiffyn y rhan fwyaf o fabanod rhag datblygu hepatitis B. Os oes gennych hepatitis B, mae tebygolrwydd hyd at 90% (9 mewn 10) y bydd eich babi yn ei gael.

Os canfyddir bod gennych haint hepatitis B, gall eich babi gael ei frechu, ac mae'r tebygolrwydd y bydd ganddo'r haint yn llai na 5% (pump mewn 100).

Beth yw anafanteision cael prawf sgrinio ar gyfer hepatitis B yn ystod beichiogrwydd?

Nid oes adeg dda i gael gwybod bod gennych hepatitis B. Fodd bynnag, os cewch wybod pan fyddwch yn feichiog, gall eich babi gael ei frechu i helpu i'w atal rhag cael yr haint gennych.

A ddylwn gael y prawf sgrinio ar gyfer hepatitis B

Dim ond chi all benderfynu a ddylid cael y prawf ai peidio. Mae pob ysbyty yng Nghymru yn argymhell y prawf sgrinio ar gyfer hepatitis B oherwydd, os oes gennych hepatitis B gellir brechu'ch babi i helpu i'w atal rhag cael yr haint gennych.

Beth fydd canlyniad y prawf sgrinio'n ei ddweud wrthyf?

Mae canlyniad prawf sgrinio negyddol yn dweud wrthyf ei bod yn annhebygol iawn bod gennych haint hepatitis B.

Os ydych wedi dal hepatitis B yn ystod y misoedd cyn y cymerir y sampl gwaed, mae'n bosibl na fydd y prawf yn gallu canfod yr haint.

Mae'n bwysig cofio y gallwch gael hepatitis B pan fyddwch yn feichiog. Os byddwch yn newid eich partner rhywiol pan fyddwch yn feichiog, dylech ddefnyddio condom.

Beth yw'r prawf diagnostig ar gyfer hepatitis B?

Weithiau, gall y prawf gwaed hepatitis B roi canlyniad aneglur (adweithiol) a bydd angen rhagor o brofion i gadarnhau nad oes gennych yr haint.

Os yw'r prawf sgrinio'n dangos bod gennych hepatitis B, bydd angen prawf gwaed arall arnoch i gadarnhau'r haint.

Beth os oes gennyf hepatitis B?

Os oes gennych hepatitis B, bydd eich bydwraig neu'ch meddyg yn siarad â chi am sut y bydd yn effeithio arnoch ac i gynllunio'r brechiadau y bydd eu hangen ar eich babi.

Dylid brechu:

- o fewn 24 awr i'r enedigaeth (bydd angen pigiad o wrthgyrff ar rai babanod hefyd – imiwnoglobwlin hepatitis B) yn y brechiad cyntaf
- yn bedair wythnos oed
- yn wyth, 12 ac 16 wythnos oed (fel rhan o frechiadau arferol eich babi), ac
- yn flwydd oed.

Hefyd, bydd angen prawf gwaed ar eich babi rhwng 12 a 13 mis oed er mwyn sicrhau nad oes ganddo'r haint.

Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn poeni bod pobl eraill yn eich teulu â'r haint. Gallant hefyd gael eu profi a'u brechu os oes angen.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hepatitis B o'r canlynol:
111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/h/article/hepatitisb

Sifflis

Beth yw sifflis?

Mae sifflis yn haint bacterol difrifol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd â sifflis yn sâl am gyfnod byr i ddechrau ac mae'n bosibl na fyddant yn ymwybodol ei fod ganddynt. Ond, os na chaiff sifflis ei drin, gall achosi niwed i'r ymennydd a chyflyrau'r galon yn ddiweddarach mewn bywyd.

Sut y gellir dal sifflis?

Gellir dal sifflis drwy:

- fam sydd â sifflis yn ei drosglwyddo i'w babi heb ei eni yn ystod y beichiogrwydd
- cael gweithgarwch rhywiol heb ddiogelwch (heb gondom) gyda rhywun sydd â'r haint.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer sifflis yn ystod beichiogrwydd?

Bydd haint sifflis yn cael ei drin gyda gwrthfotigau'n gynnar yn ystod beichiogrwydd a bydd hyn, fel arfer, yn atal eich babi rhag cael sifflis. Yn achlysurol, efallai y bydd angen gwrthfotigau ar fabanod pan gânt eu geni hefyd.

Beth yw anfanteision cael prawf sgrinio ar gyfer sifflis yn ystod beichiogrwydd?

Nid oes adeg dda i gael gwybod bod gennych sifflis. Fodd bynnag, os cewch wybod pan fyddwch yn feichiog, gallwch gael triniaeth er mwyn helpu i atal trosglwyddo'r haint i'ch babi.

Os canfyddir bod gennych haint sifflis ac nid yw'n cael ei drin, mae risg y gall yr haint arwain at gamesgoriad neu niwed i'ch babi.

A ddylwn gael y prawf sgrinio ar gyfer sifflis?

Dim ond chi all benderfynu a ddylid cael y prawf ai peidio. Mae pob ysbyty yng Nghymru yn argymhell y prawf sgrinio ar gyfer sifflis oherwydd y gall triniaeth gyda gwrthfotigau helpu i'ch atal rhag ei drosglwyddo i'ch babi.

Beth fydd canlyniad y prawf sgrinio'n ei ddweud wrthyf?

Mae canlyniad prawf sgrinio negyddol yn dweud wrthyf ei bod yn annhebygol iawn bod gennych haint sifflis.

Os ydych wedi dal sifflis yn ystod yr wythnosau cyn y cymerir y sampl gwaed, mae'n bosibl na fydd eich corff wedi dechrau cynhyrchu gwrthgyrff ac ni fydd y prawf yn gallu canfod haint.

Mae'n bwysig cofio y gallwch gael sifflis pan fyddwch yn feichiog. Os byddwch yn newid eich partner rhywiol pan fyddwch yn feichiog, dylech ddefnyddio condom.

Beth yw'r prawf diagnostig ar gyfer sifflis?

Weithiau, gall y prawf gwaed sifflis roi canlyniad aneglur (adweithiol) a bydd angen rhagor o brofion i gadarnhau nad oes gennych haint.

Os yw'r prawf sgrinio'n bositif, cewch apwyntiad gyda meddyg sy'n arbenigo yn y mathau hyn o heintiau. Bydd y meddyg hwn yn gofyn cwestiynau i chi, gan gynnwys cwestiynau am heintiau blaenorol, i wneud diagnosis a phenderfynu ar y driniaeth orau.

Nid yw bob amser yn hawdd deall canlyniadau'r prawf sgrinio ar gyfer sifflis. Weithiau, daw canlyniad y prawf sgrinio'n ôl yn bositif oherwydd eich bod wedi cael sifflis yn y gorffennol ac wedi cael eich trin, neu oherwydd bod gennych haint gwahanol a llai difrifol.

Beth os oes gennyf sifflis?

Os oes gennych sifflis, bydd eich bydwraig neu'ch meddyg ysbyty'n siarad â chi am sut y bydd yn effeithio arnoch. Yn ôl pob tebyg, bydd gwrthfotigau'n cael eu rhoi i chi a bydd angen rhagor o brofion gwaed arnoch.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sifflis o:

111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/s/article/syphilis?locale=cy&term=A

Heintiau eraill

Os byddwch yn cael brech neu'n dod i gysylltiad â rhywun sydd â brech pan fyddwch yn feichiog, mae angen i chi ddweud wrth eich bydwraig neu'ch meddyg. Efallai y bydd angen i chi gael profion gwaed eraill i gael gwybod beth sydd wedi achosi'r frech.

Mae ychydig o heintiau sy'n achosi brech y mae'n bwysig gwybod amdanynt yn ystod beichiogrwydd. Y rhain yw brech goch yr Almaen (rwbela), brech yr ieir, y frech goch a haint parfofeirws (a elwir fel arfer yn syndrom y foch goch).

Rwbela

Byddwch yn cael eich amddiffyn rhag rwbela os ydych erioed wedi cael dau ddos o frechlyn sy'n cynnwys rwbela. Bydd angen dau ddos o'r brechlyn arnoch os nad ydych wedi'i gael neu os na allwch gofio ei gael.

Bydd angen y rhain arnoch ar ôl i'ch babi gael ei eni. Fel arfer, byddwch yn cael y brechlyn cyntaf ym meddygfa'ch meddyg, a'r ail ddos fis yn ddiweddarach.

Os nad ydych yn siŵr pa frechiadau rydych wedi'u cael, dylech ofyn i'ch meddygfa wirio'ch hanes imiwneiddio, y mae'n bosibl ei fod wedi'i gofnodi yng nghofnodion eich meddyg teulu.

Mae cael rwbela yn ystod beichiogrwydd yn eithriadol o brin yng Nghymru, ond gall fod yn ddifrifol iawn i'ch babi. Gall achosi cyflwr o'r enw syndrom rwbela cynhenid. Gall hyn arwain at fyddardod, dallineb, cataractau (cyflyrau llygaid) neu gyflyrau'r galon yn eich babi. Hefyd, yn brin iawn, gall arwain at farwolaeth eich babi.

Brech yr ieir

Mae brech yr ieir yn haint cyffredin iawn a bydd y rhan fwyaf o fenywod wedi cael brech yr ieir pan oeddent yn blant a bydd ganddynt imiwnedd. Os dewch i gysylltiad â rhywun sydd â brech yr ieir neu os cewch frech yr ieir pan fyddwch yn feichiog, efallai y cewch gynnig triniaeth. Bydd hyn yn helpu i atal neu leihau symptomau'r haint.

Y frech goch

Byddwch yn cael eich amddiffyn rhag y frech goch os ydych wedi cael yr haint o'r blaen neu os ydych erioed wedi cael dau ddos o frechlyn sy'n cynnwys y frech goch (er enghraifft, y frech goch a rwbela neu'r frech goch, clwy'r pennau a rwbela yn yr ysgol, pan oeddech yn blentyn, neu yn eich meddygfa). Os dewch i gysylltiad â rhywun sydd â'r frech goch pan fyddwch yn feichiog neu os bydd gennych y frech goch pan fyddwch yn feichiog, efallai y cewch gynnig triniaeth. Bydd hyn yn helpu i atal neu leihau symptomau'r haint.

Mae'r frech goch yn brin yn y DU. Os oes gennych y frech goch pan fyddwch yn feichiog, gall eich symptomau fod yn fwy difrifol.

Parfofeirws

Fel arfer, mae parfofeirws yn haint ysgafn iawn ymhlith menywod ond, yn achlysurol, gall achosi cymhlethdodau ymhlith babanod heb eu geni. Nid oes brechlyn i atal yr haint hwn. Mewn achosion prin pan fo menywod yn cael parfofeirws yn gynnar yn ystod beichiogrwydd, mae'n bosibl y bydd cymhlethdodau gan eu babi heb ei eni. Os bydd gennych parfofeirws yn gynnar yn ystod beichiogrwydd, caiff sganiau ychwanegol eu cynnig i chi er mwyn chwilio am arwyddion o'r cymhlethdodau hyn yn eich babi.

Adran 4 – Sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gallwch eu cael yn ystod beichiogrwydd i gael gwybod a ydych yn gludwr clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia. Os ydych yn gludwr, bydd prawf yn cael ei gynnig i dad biolegol eich babi hefyd.

Beth yw anhwylderau'r crymangelloedd a beta thalasaemia difrifol?

Mae anhwylderau'r crymangelloedd a beta thalasaemia difrifol yn gyflyrau gwaed etifeddol difrifol. Maent yn effeithio ar yr haemoglobin yn y celloedd gwaed coch. Mae haemoglobin yn bwysig am ei fod yn cludo ocsigen o amgylch y corff. Bydd angen gofal arbenigol ar bobl sydd â'r cyflyrau hyn drwy gydol eu hoes. Mae anhwylderau haemoglobin eraill, llai cyffredin hefyd. Nid yw llawer o'r rhain mor ddifrifol.

Os ydych chi a thad biolegol eich yn gludwyr crymangelloedd neu thalasaemia, gallai eich babi etifeddu anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol.

Anhwylderau'r crymangelloedd

Gall pobl ag anhwylder y crymangelloedd:

- gael niwed i feinweoedd ac organau a gwahanol raddau o symptomau
- cael pyliau o boen ddifrifol lle mae angen iddynt aros yn yr ysbyty, a
- bod yn fwy agored i heintiau difrifol.

Beta thalasaemia difrifol

Mae pobl â beta thalasaemia difrifol ag:

- anemia difrifol a bydd angen trallwysïadau gwaed arnynt bob pedair i chwe wythnos, yn ogystal â thriniaethau eraill.

Sut yr etifeddir yr anhwylderau?

Anhwylderau genetig yw clefyd y crymangelloedd a thalasaemia. Maent yn cael eu trosglwyddo mewn teuluoedd. Os mai dim ond un rhiant biolegol (naill ai'r fam neu'r tad) sydd â genyn y crymangelloedd neu thalasaemia, mae'n annhebygol iawn y bydd gan eu babi anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol. Ond gall eu babi fod yn gludwr.

Mae hyn yn golygu, fel y fam neu'r tad, y bydd gan y babi genyn y crymangelloedd neu thalasaemia, ond nid yw'r genyn yn achosi problemau fel arfer.

Os yw'r ddau riant biolegol yn cludo genyn y crymangelloedd neu thalasaemia, mae siawns 25% (un mewn pedwar) y bydd gan y babi anhwylder y crymangelloedd neu beta thalasaemia difrifol.

Pwy all fod yn gludwr y crymangelloedd neu thalasaemia?

Gall unrhyw un fod yn gludwr y crymangelloedd neu thalasaemia. Mae'n fwy tebygol y bydd grwpiau penodol o bobl yn cludo'r crymangelloedd neu thalasaemia.

Mae'n fwy tebygol y byddwch yn gludwr os yw eich teulu, ni waeth faint o genedlaethau yn ôl, yn dod o ardal Môr y Canoldir, Affrica, y Caribî, y Dwyrain Canol, De Asia, De America neu Dde-ddwyrain Asia.

Y prawf

Prawf gwaed yw'r prawf y gellir ei wneud gyda phrofion gwaed eraill, fel arfer yn gynnar yn ystod beichiogrwydd. Dim ond i fenywod sy'n fwy tebygol o gludo'r crymangelloedd neu thalasaemia y cynigir y prawf. Gweler 'I bwy y cynigir y prawf?' i weld a ydych yn y grŵp hwn. Fel rhan o'ch gofal cyn geni, byddwch yn cael cynnig prawf gwaed arferol (cyfrif gwaed llawn) i wirio'ch lefel haemoglobin i weld a ydych yn anemig.

Hefyd, gall y cyfrif gwaed llawn ganfod rhai mathau o thalasaemia.

Bydd y fydwraig yn gofyn i chi a ydych am gael prawf sgrinio thalasaemia fel rhan o'r prawf cyfrif gwaed llawn. Os yw'ch prawf cyfrif gwaed llawn yn awgrymu ei bod yn bosibl eich bod yn cludo thalasaemia, gall y labordy hefyd sgrinio'ch gwaed ar gyfer anhwylderau'r crymangelloedd a thalasaemia.

I bwy y cynigir y prawf?

Bydd eich bydwraig yn gofyn i chi o ble mae eich teulu yn hanu. Dylai'r prawf gael ei gynnig i chi yn y sefyllfaoedd canlynol:

- rydych chi neu dad biolegol eich babi â hanes teulu o glefyd y crymangelloedd neu thalasaemia
- rydych chi, tad biolegol eich babi, unrhyw un yn nheulu'r tad biolegol neu'ch teulu chi, ni waeth faint o genedlaethau yn ôl, yn dod o unrhyw le yn y byd heblaw am y DU neu Iwerddon, neu

- nid ydych chi na thad biolegol eich babi yn gwybod eich hanes teul – er enghraifft, mabwysiadwyd chi neu dad biolegol eich babi.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd?

Os ydych yn gludwr clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia, mae'n bwysig gwybod fel y gallwch gael y math cywir o ofal yn ystod eich beichiogrwydd.

Gall menywod sy'n gwybod bod eu babi yn fwy tebygol o etifeddu anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol gael prawf mewnwthiol i gael gwybod a oes gan eu babi'r cyflwr. Gellid gwneud hyn naill ai drwy brawf samplu filws corionig neu amniosentesis. Os oes gan eich babi'r cyflwr, gallwch benderfynu a ddylid paratoi ar gyfer genedigaeth eich babi gydag un o'r cyflyrau hyn neu roi terfyn ar eich beichiogrwydd.

Beth yw anfanteision cael prawf sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd?

Gall cael y prawf eich gwneud yn bryderus os cewch wybod eich bod yn cludo clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia. Bydd rhai menywod yn cael cynnig prawf mewnwthiol i weld a oes gan eu babi'r cyflwr. Oherwydd bod siawns fach y gall y profion mewnwthiol achosi comesgoriad, mae hwn yn benderfyniad anodd i lawer o fenywod. Mae'n bosibl y bydd rhai menywod yn dymuno nad oeddent wedi cael y prawf sgrinio am ei bod yn anodd gwneud y penderfyniad hwn.

A ddylwn gael y prawf sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia?

Dim ond chi all benderfynu a ddylid cael y prawf ai peidio. Mae rhai menywod am gael gwybod a oes gan eu babi glefyd y crymangelloedd neu thalasaemia, ac nid yw eraill am wybod hynny. Gall cael y prawf achosi pryder gan y gall y canlyniad olygu y cynigir rhagor o brofion i chi.

Beth fydd y canlyniadau'n ei ddweud wrthyf?

Os yw'r canlyniad yn dangos nad ydych yn gludwr, mae'n annhebygol iawn y gallai'ch babi fod ag anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol. Er bod y prawf yn gywir iawn, gall nifer bach o ganlyniadau fod yn aneglur. Os yw hyn yn digwydd, cynigir prawf arall i chi.

Os yw'r prawf yn dangos eich bod yn gludwr neu'n gludwr posibl, bydd modd i chi siarad â bydwraig arbenigol neu arbenigwr genetig a bydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Mae'n bosibl y bydd yn awgrymu eich bod yn gofyn i dad biolegol eich babi gael prawf gwaed i weld a yw'n gludwr. Os yw canlyniad ei brawf yn dangos nad yw'n gludwr, mae'n annhebygol iawn y bydd gan eich babi anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol.

Os ydych yn gludwr neu os oes gennych anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia, caiff profion eu cynnig i dad biolegol eich babi hefyd.

Os yw tad biolegol eich babi yn gludwr neu os oes ganddo anhwylder y crymangelloedd neu os yw'n gwrthod profion, cewch gynnig cyngor arbenigol ar y cyflwr a phroffion mewnwthiol (gweler adran 7).

Beth os yw'r tad biolegol hefyd yn gludwr?

Os yw'r prawf yn dangos bod tad biolegol eich babi hefyd yn gludwr, mae siawns 25% (un mewn pedwar) y gallai'ch babi fod ag anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol. Yna gallwch benderfynu a ydych am gael rhagor o broffion i weld a oes gan eich babi'r cyflwr. Profion mewnwthiol yw'r profion hyn (gweler adran 7). Os byddwch yn dewis peidio â chael rhagor o broffion, gall eich babi gael prawf pan gaiff ei eni ar gyfer anhwylderau'r crymangelloedd neu ar gyfer thalasaemia difrifol. Mae hyn yn golygu os oes gan eich babi'r cyflwr, gall triniaeth ddechrau'n gynnar.

Beth yw'r canlyniadau posibl o broffion mewnwthiol?

Os cewch brawf samplu filws corionig neu amniosentesis, gall y canlyniad ddangos:

- nad yw'r cyflwr hwn gan eich babi
- bod gan eich babi anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol. Yna gallwch benderfynu paratoi ar gyfer genedigaeth babi sydd ag anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol neu roi terfyn ar eich beichiogrwydd.

Gall prawf samplu filws corionig ac amniosentesis ganfod newidiadau cromosomaidd eraill. Bydd y fydwraig arbenigol neu'r cwnselydd genetig yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Byddwch yn cael cynnig prawf sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig ar ôl i'ch babi gael ei eni. Bydd y prawf hwn hefyd yn chwilio am anhwylder y crymangelloedd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia o'r canlynol: 111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/s/article/sicklecelldisease neu 111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/t/article/thalassaemia

Adran 5 – Sganiau uwchsain yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r ddau brawf sgrinio uwchsain a gynigir i chi yn ystod beichiogrwydd. Gallwch ddewis a ydych am gael y profion hyn ai peidio.

Mae'n esbonio:

- beth yw'r profion
- pam y cânt eu cynnal
- pryd y cânt eu cynnal.

Mae'r sgan yn ffordd o wirio ei bod yn ymddangos bod eich babi'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn golygu y gall ddangos canfyddiadau annisgwyl y byddai angen eu gwirio wedyn gan brofion eraill. Ni all sgan ddod o hyd i'r holl gyflyrau sy'n cael eu sgrinio.

Beth yw sgan uwchsain?

Mae peiriant uwchsain yn defnyddio tonnau sain i greu delwedd ar sgrin cyfrifiadur.

Sonograffydd yw'r sawl sy'n gwneud y sgan. Bydd y sonograffydd yn esbonio i chi beth y mae'n ei wneud ac am beth mae'n chwilio.

Sut y trefnir y sgan?

Os byddwch yn penderfynu yr hoffech gael sgan, bydd eich bydwraig yn dweud wrthyh lle y gellir ei gynnal ac yn trefnu'r apwyntiad i chi.

Os ydych wedi cael apwyntiad ac yna'n penderfynu nad ydych am gael sgan, dywedwch wrth eich bydwraig a chanslo'r apwyntiad.

Sut y cynhelir y sgan?

Bydd angen i chi orwedd ar eich cefn i gael y sgan. Nid oes angen i chi wisgo dillad penodol ar gyfer y sganiau. Fodd bynnag, gofynnir i chi godi'ch dillad uchaf i'ch brest a gollwng eich sgert neu'ch trowsus i'ch llinell bicini. Caiff gel ei daenu ar eich abdomen isaf fel y gellir symud dyfais o'r enw troswr yn ôl ac ymlaen dros eich abdomen. Efallai y bydd angen i'r sonograffydd bwyso ar eich abdomen â'r troswr er mwyn gweld eich babi yn iawn.

Nid yw tonnau uwchsain yn symud drwy'r aer, felly mae'r gel yn sicrhau bod cyswllt da rhwng eich croen a'r troswr. Bydd papur tisw yn diogelu'ch dillad rhag y gel.

Mae'r troswr yn pasio tonnau sain drwy'ch abdomen i mewn i'r groth. Mae'r tonnau sain yn neidio'n ôl oddi ar eich babi ac yn cael eu trosi'n ddelwedd ar sgrin.

Bydd y sonograffydd yn cael delwedd gliriach o'ch babi os na fydd eich pledren yn gwbl wag pan gewch eich sgan. Ceisiwch beidio â phasio wrin am ryw awr cyn eich apwyntiad.

Er mwyn i'r sonograffydd weld eich babi'n glir ar y sgrin, cynhelir y sgan mewn ystafell dywyll. Mae sganio'n cynnwys llawer o waith canolbwytio, felly cedwir yr ystafell yn dawel hefyd. Bydd y sonograffydd yn esbonio beth y maent yn ei wneud ac am beth y maent yn chwilio.

A yw sganiau'n ddiogel?

Hyd y gwyddom, mae'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a'r sgan anomaledd y ffetws a gynigir gennym yn ddiogel i'r fam a'r babi.

Beth yw sganiau dyddio beichiogrwydd cynnar ac anomaledd y ffetws?

Gall y ddau sgan hyn ganfod problemau annisgwyl cyn i'ch babi gael ei eni. Gall cael gwybod am broblem sydd gan eich babi cyn yr enedigaeth eich helpu chi i baratoi. Weithiau, gall helpu i gynllunio triniaeth ar gyfer y cyfnod ar ôl i'ch babi gael ei eni. Weithiau, pan fo menywod yn cael gwybod am ganfyddiadau annisgwyl, mae'n bosibl y byddant am ystyried rhoi terfyn ar y beichiogrwydd.

Beth yw anfanteision cael y sganiau hyn?

Gall cael y sganiau'ch gwneud yn bryderus, yn enwedig os oes canfyddiad annisgwyl. Os yw'n well gennych beidio â gwybod, mae angen i chi feddwl yn ofalus a ddylech gael y sganiau. Dylech drafod eich pryderon â'ch bydwraig.

Canlyniadau

Sut y gallaf gael canlyniadau'r sganiau hyn?

Bydd y sonograffydd yn dweud wrthy ch am ganlyniadau'ch sgan ar ddiwedd yr archwiliad.

A allaf ddod â theulu neu ffrindiau gyda mi pan fyddaf yn cael y sgan?

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn iach ond, oherwydd y gall y sganiau ddangos canfyddiadau annisgwyl, mae'n bosibl y byddwch am ofyn i'ch partner neu un oedolyn a all eich cefnogi i ddod gyda chi ar gyfer eich sgan.

Mae'n well peidio â dod â phlant i'r apwyntiad. Gallant dynnu'ch sylw chi a'r sonograffydd yn ystod y sgan. Os ceir canfyddiadau annisgwyl ar y sgan, bydd y sonograffydd yn dweud wrthy ch amdanynt, ac nid yw hon yn sefyllfa addas i blant.

A allaf gael llun o'm babi?

Weithiau, mae'n bosibl prynu lluniau o'ch babi a dynnir yn ystod y sgan. Dywedwch wrth y sonograffydd os hoffech wneud hyn cyn i'r sgan ddechrau. Bydd y sonograffydd yn cael y llun gorau o'ch babi o fewn amser yr apwyntiad.

Nid yw recordio fideo na defnyddio ffonau symudol yn yr ystafell sgan uwchsain yn cael ei argymhell. Bydd angen i chi wirio polisi eich ysbyty lleol ar hyn.

Y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar

Cynigir y sgan hwn i'r holl fenywod, fel arfer ar ôl 11 i 14 wythnos o feichiogrwydd.

Faint o amser fydd fy sgan yn ei gymryd?

Mae'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar yn cymryd tua 10 i 20 munud.

Cynhelir y sgan er mwyn:

- chwilio am guriad calon eich babi
- cael gwybod a ydych yn cario mwy nag un babi (bydd angen gofal cyn geni ychwanegol arnoch os yw hyn yn wir, ac mae'n bwysig gwybod a yw'ch babanod yn rhannu'r un brych)
- mesur eich babi i wirio ers faint rydych wedi bod yn feichiog a'r dyddiad y disgwylir eich babi (mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn ystyried cael rhagor o brofion sgrinio)
- mesur tryleuder y gwegil (y crynhoad bach o hylif yng nghefn gwddf eich babi), os ydych wedi gofyn am brawf sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau
- gwirio datblygiad eich babi (nid yw datblygiad eich babi yn glir iawn ar y cam cynnar hwn, ond weithiau gellir canfod cyflyrau difrifol).

A fydd angen sgan dyddio beichiogrwydd cynnar arall arnaf?

Weithiau, ni ellir gweld eich babi yn glir drwy ddefnyddio troswr abdomenol, felly efallai y bydd y sonograffydd yn awgrymu eich bod yn cael sgan mewmol. Yr enw ar hyn yw sgan trawsweiniol, a gall roi llun manylach. Gofynnir i chi wagio'ch pledren cyn y sgan hwn. Gosodir troswr bach yn eich gwain, mewn modd tebyg i osod tampon.

Nid yw sgan uwchsain trawsweiniol yn boenus fel arfer. Bydd y sonograffydd yn esbonio am y sgan ac yn gofyn i chi gytuno i'w wneud. Os nad ydych am gael sgan mewmol, dywedwch wrth y sonograffydd. Efallai y bydd angen apwyntiad arnoch ar gyfer sgan abdomenol arall.

Sgan anomaledd y ffetws

Cynigir y sgan hwn ar ôl 18 i 20 wythnos o feichiogrwydd.

Faint o amser fydd fy sgan yn ei gymryd?

Fel arfer, mae'r sgan anomaledd y ffetws yn cymryd tua 15 i 30 munud.

Cynhelir y sgan er mwyn:

- gwirio datblygiad corfforol eich babi
- helpu i ganfod newidiadau strwythurol (a elwir yn anomaleddau hefyd) fel spina bifida, cyflyrau arenol neu gyflyrau'r galon
- gwirio faint o hylif sydd o amgylch eich babi yn y groth, ac
- edrych ar safle'r brych.

Nid yw chwilio am ryw eich babi yn rhan o'r sgan ac nid yw 100% yn gywir.

Os ydych am wybod rhyw'r babi ac mae'r sonograffydd yn gallu ei gweld, bydd yn dweud wrthych ar adeg y sgan. Ni fydd yn ei ysgrifennu i lawr.

A fydd angen sgan anomaledd y ffetws arall arnaf?

Bydd y sonograffydd yn defnyddio rhestr wirio y cytunwyd arni ar gyfer Cymru gyfan i chwilio am gyflyrau penodol (fel spina bifida) ac edrych ar strwythurau (fel y galon). Hefyd, rhaid i'r sonograffydd ganolbwyntio'n galed iawn yn ystod y sgan, felly sicrhewch na fyddwch chi na'r sawl sy'n eich cefnogi yn tynnu ei sylw. Weithiau, nid yw'n bosibl gweld popeth ar y rhestr yn ystod eich sgan. Gall hyn fod am y rhesymau canlynol:

- roedd eich babi yn gorwedd mewn safle a oedd yn golygu ei bod yn anodd ei archwilio, neu
- rydych yn pwyso'n fwy na'r cyfartaledd ar gyfer eich taldra ac roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd edrych ar eich babi gan nad oedd y delweddau'n glir.

Os bydd hyn yn digwydd, cewch apwyntiad arall i ddod yn ôl ar gyfer un sgan arall i weld a all y sonograffydd gwblhau'r rhestr wirio. Nid yw bob amser yn bosibl i'r sonograffydd gwblhau'r rhestr, hyd yn oed ar yr ail apwyntiad.

Beth mae'r sgan yn gallu ei ganfod?

Gall sgan ddangos rhai canfyddiadau annisgwyl gyda datblygiad eich babi, ond nid pob canfyddiad annisgwyl. Gall rhai ddatblygu ar ôl 20 wythnos ac efallai na fydd rhai yn ymddangos ar y sgan. Dyma pam, mewn nifer bach o achosion, y mae babanod yn cael eu geni gyda phroblemau heb ddiagnosis.

Mae Tabl 1 yn rhestru rhai enghreifftiau o gyflrau. Mae'r golofn dde'n dangos pa mor debygol ydyw y gallai sgan anomaledd y ffetws nodi pob cyflwr. **Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr holl gyflyrau y gellir eu gweld.**

Gellir achosi rhai cyflyrau os yw'ch babi yn cael newid cromosomaidd sy'n effeithio ar y ffordd y mae'ch babi'n datblygu. Os amheuir newid cromosomaidd, efallai y cewch gynnig amniosentesis. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y prawf hwn yn adran 7.

Tabl 1

Y cyflwr	Y tebygolrwydd y caiff y cyflwr ei weld ar sgan anomaledd y ffetws ar ôl 18 i 20 wythnos
Spina bifida (croen neu esgyrn ddim yn gorchuddio llinyn asgwrn y cefn) Mae spina bifida’n nam wrth ddatblygu asgwrn y cefn a llinyn asgwrn y cefn sy’n gadael bwlch yn asgwrn y cefn. Mae llinyn asgwrn y cefn yn cysylltu pob rhan o’r corff â’r ymennydd.	98% (tua 9 mewn 10)
Cyflwr difrifol y galon, er enghraifft, amgaead yr aorta Mae amgaead yr aorta yn gyflwr difrifol ar y galon lle nad yw’r brif rydweli (yr aorta) wedi datblygu yn y ffordd arferol yn y groth. Mae’r cyflwr hwn yn aml yn gofyn am lawdriniaeth yn ystod wythnosau cyntaf bywyd (neu mewn rhai achosion efallai y bydd angen iddo gael ei fonitro gan feddyg arbenigol ar y galon mewn clinig yn unig).	58% (tua 5 mewn 10)

Data: Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid Cymru icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-gwybodaeth-a-chofrestr-anomaleddau-cynhenid-cymru-caris (Fel ar 23/02/24)

Beth fydd yn digwydd os bydd canfyddiad annisgwyl yn cael ei amau yn ystod y sgan?

Os yw'r sonograffydd yn dod o hyd i ganfyddiad annisgwyl, bydd yn rhoi gwybod i chi a byddwch yn gallu siarad â'r bydwagedd neu'r meddyg ysbyty yn eich clinig cyn geni.

Gall fod yn ofidus cael newyddion annisgwyl. Rydym yn argymhell y daw eich partner neu un oedolyn yn unig gyda chi i apwyntiad y sgan.

Weithiau, nid yw'n bosibl, yn y sgan anomaledd y ffetws cyntaf, i'r sonograffydd nodi beth yn union yw'r canfyddiad annisgwyl. Gallech gael cynnig sgan arall mewn adran arall neu gydag arbenigwr sy'n ymdrin â'r math o gyflwr yr amheuir ei fod gan eich babi.

Profion mewnwthiol yn dilyn sgan anomaledd y ffetws

Mae'n bosibl y caiff prawf arall ei gynnig i chi, fel amniosentesis (gweler adran 7). Bydd eich bydwraig neu'ch meddyg ysbyty (obstetregydd) yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am unrhyw brofion eraill.

Beth fydd yn digwydd os canfyddir anomaledd pendant?

Gall cael gwybod y gall fod cyflwr gan eich babi cyn yr enedigaeth eich helpu chi i baratoi'ch hun. Gellir defnyddio gwybodaeth am y math o gyflwr ar gyfer sut, pryd a lle y caiff eich babi ei eni. Gall fod angen i'ch babi gael ei eni mewn ysbyty gwahanol a all ddarparu'r staff a gofal arbenigol y gallai fod ei angen ar eich babi.

Gellir trin nifer bach iawn o gyflyrau cyn i'ch babi gael ei eni.

Os yw'r cyflwr yn ddifrifol, efallai y byddwch yn penderfynu parhau â'ch beichiogrwydd neu ystyried rhoi terfyn ar eich beichiogrwydd. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd a byddwch yn cael amser, gwybodaeth a chymorth i'ch helpu i wneud penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae'n ofidus cael gwybod bod cyflwr gan eich babi heb ei eni ac mae'n anodd penderfynu beth i'w wneud. Mae'r rhan fwyaf o fenywod am gael rhywfaint o gymorth ac mae angen cymorth arnynt. Gallai gael ei rhoi gan eich partner, eich teulu neu'ch ffrindiau neu gan y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanoch. Gallwch ddewis dod â'ch partner neu un oedolyn yn unig i apwyntiadau ysbyty gyda chi.

Adran 6 – Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gellir eu cynnal yn ystod beichiogrwydd i gael gwybod a oes gan eich babi syndrom Down (trisomedd 21 neu T21), syndrom Edwards (trisomedd 18 neu T18) neu syndrom Patau (trisomedd 13 neu T13). Bydd menywod sy'n cael gwybod ei bod yn fwy tebygol bod gan eu babi y cyflyrau hyn yn cael cynnig prawf sgrinio arall neu driniaeth fewnwithiol, fel prawf samplu filws corionig neu amniosentesis (gweler adran 7).

Gallwch ddewis a ydych am gael y profion hyn ai peidio. Mae rhai menywod am wybod a oes gan eu babi un o'r cyflyrau hyn ac nid yw eraill am wybod hyn.

Beth yw syndrom Down (T21)?

Achosir syndrom Down gan gopi ychwanegol o gromosom 21 mewn rhai, neu bob un, o gelloedd y corff.

Gall pobl â syndrom Down gael ansawdd bywyd da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud eu bod yn mwynhau eu bywydau. Gyda chymorth, mae llawer o bobl â syndrom Down yn gallu cael swyddi, cael perthnasoedd a byw'n lled-annibynnol pan fyddant yn oedolion.

Bydd gan berson sydd â syndrom Down ryw lefel o anabledd dysgu. Mae hyn yn golygu y bydd yn anoddach deall a dysgu pethau newydd na'r rhan fwyaf o bobl eraill. Gallant wynebu heriau cyfathrebu a chael trafferth ymdopi â rhai tasgau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o blant â syndrom Down yn mynd i ysgolion prif ffrwd, ond mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'n fwy tebygol y bydd pobl â syndrom Down â rhai cyflyrau meddygol, gan gynnwys cyflyrau'r galon. Gellir trin llawer o'r cyflyrau hyn, gyda chanlyniadau da.

Yng Nghymru, mae 90% (9 mewn 10) o blant â syndrom Down yn byw heibio i'w pen-blwydd yn bump oed. I fabanod heb gyflyrau iechyd difrifol, mae'r cyfraddau goroesi'n debyg i rai plant eraill. Gyda gofal iechyd da, bydd y rhan fwyaf o bobl yn byw i'w 60au.

Mae gan bob menyw siawns o gael babi â syndrom Down. Mae'r siawns yn cynyddu gydag oedran, ond genir babanod â syndrom Down i fenywod iau hefyd. Dyma pam y cynigir y prawf sgrinio i fenywod o bob oed.

Mae syndrom Down yn digwydd mewn 1 o bob 415 beichiogrwydd yng Nghymru.

Gallwch weld rhai straeon teulu am fyw gyda syndrom Down ar wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru: icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni



Gallwch gael rhagor o wybodaeth am syndrom Down o'r canlynol: 111.wales.nhs.uk/encyclopaedia/d/article/downssyndrome

Beth yw syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13)?

Mae babanod â syndrom Edwards â chopi ychwanegol o gromosom 18 mewn rhai, neu bob un, o'r celloedd. Mae babanod â syndrom Patau â chopi ychwanegol o gromosom 13 mewn rhai, neu bob un, o'r celloedd.

Yn anffodus, mae'r cyfraddau goroesi'n isel ac, o'r babanod a enir yn fyw yng Nghymru, dim ond 13% (1 mewn 7) sy'n byw heibio i'w pen-blwydd yn flwydd oed.

Mae rhai babanod yn goroesi nes eu bod yn oedolion, ond mae hyn yn brin.

Bydd gan yr holl fabanod sy'n cael eu geni â syndrom Edwards a syndrom Patau anabledd dysgu ac amrywiaeth eang o heriau corfforol, a all fod yn eithriadol o ddifrifol. Efallai y bydd ganddynt gyflyrau sy'n effeithio ar eu haelodau, eu harennau a'u system dreulio.

Bydd tua hanner y babanod â syndrom Patau â gwefus a thaflod hollt. Bydd babanod â syndrom Edwards a syndrom Patau â phwysau geni isel.

Er gwaethaf eu hanawsterau, gall plant wneud cynnydd araf yn eu datblygiad. Byddai angen i blant hyn â'r naill gyflwr neu'r llall fynd i ysgol arbenigol.

Mae gan bob menyw siawns o gael babi â syndrom Edwards neu syndrom Patau. Mae'r siawns yn cynyddu gydag oedran, ond genir babanod â'r cyflyrau hyn i fenywod iau hefyd. Dyma pam y cynigir y prawf sgrinio i fenywod o bob oed.

Mae syndrom Edwards yn digwydd mewn 1 o bob 1656 beichiogrwydd yng Nghymru a syndrom Patau mewn 1 o bob 4201.

Gallwch weld rhai straeon teulu am fyw gyda syndrom Edwards ar wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru: icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni



Gallwch gael rhagor o wybodaeth am syndrom Edwards a syndrom Patau o'r canlynol:

[111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/e/article/edwardssyndrome\(trisomy18\)](http://111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/e/article/edwardssyndrome(trisomy18))

111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/p/article/pataussyndrome

Pa brawf sgrinio fydd yn cael ei gynnig i mi?

Prawf sgrinio cyfunol – cynhelir y prawf hwn ar ôl rhwng 11 a 14 wythnos o feichiogrwydd

Cewch gynnig sgan uwchsain (os yw'n bosibl, bydd y sonograffydd yn mesur y crynhoad bach o hylif (tryleuder y gwegil) yng nghefn gwddf y babi). Yna, cewch gynnig prawf gwaed. Caiff y mesuriadau eu cymryd ar adeg y sgan. Defnyddir canlyniadau'r prawf gwaed a'ch oedran i bennu'r siawns bod gan eich babi syndrom Down a'r siawns bod gan eich babi syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Weithiau, gall y mesuriadau fod yn anodd eu cael. Er enghraifft, mae'n bosibl bod eich babi yn gorwedd yn y safle anghywir neu mae'n bosibl eich bod yn pwyso'n fwy na'r cyfartaledd ar gyfer eich taldra ac mae hyn yn golygu ei bod yn anodd edrych ar eich babi gan nad yw'r delweddau'n glir. Os na all y sawl sy'n cynnal y sgan (y sonograffydd) gael mesuriad, bydd yn dweud wrthyh.

Os ydych yn cael gefeilliaid, cewch gynnig prawf sgrinio cyfunol.

Ni chynigir y prawf sgrinio pedwarplyg yng Nghymru i fenywod sy'n disgwyl gefeilliaid gan nad yw mor gywir ag mewn beichiogrwydd un babi.

Prawf sgrinio pedwarplyg – cynhelir y prawf hwn ar ôl rhwng 15 a 18 wythnos o feichiogrwydd

Cewch gynnig prawf pedwarplyg os na ellir cymryd y mesuriadau sydd eu hangen neu os ewch i apwyntiad sgan pan fyddwch wedi bod yn feichiog am fwy na 14 wythnos. Mae hyn yn golygu cael prawf gwaed i gael gwybod y siawns bod gan eich babi syndrom Down, ond nid syndrom Edwards na syndrom Patau.

Gallwch ddewis cael sgan dyddio beichiogrwydd cynnar ai peidio. Hefyd, gallwch ddewis cael sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, ond nid y prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Beth fydd canlyniad y prawf sgrinio'n ei ddweud wrthyf?

Gall y prawf sgrinio ddweud wrthyfych pa mor debygol ydyw y bydd gan eich babi un o'r cyflyrau.

Y prawf cyfunol

- Caiff hwn ei gynnal ar neu cyn yr adeg eich bod yn feichiog am 14 wythnos ac 1 diwrnod.
- Os cewch y prawf cyfunol, cewch ddau ganlyniad gwahanol:
 - Bydd un yn dweud wrthyfych pa mor debygol ydyw y bydd gan eich babi syndrom Down.
 - Bydd y llall yn dweud wrthyfych pa mor debygol ydyw y bydd gan eich babi syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Y prawf pedwarplyg

- Cynhelir hwn ar ôl rhyw 16 wythnos o feichiogrwydd (ond gellir ei gynnal rhwng 15 wythnos a 0 diwrnod a 18 wythnos a 0 diwrnod o feichiogrwydd) a bydd dim ond yn dweud wrthyfych beth yw'r siawns y byddwch yn cael babi â syndrom Down.

Nid yw'r prawf sgrinio'n nodi'r holl fabanod â'r cyflyrau hyn. Er enghraifft, ar gyfartaledd, bydd 70% i 80% (tua saith neu wyth mewn 10) o fabanod â'r cyflyrau hyn yn cael eu nodi drwy sgrinio. Mae hyn yn golygu na fydd 20% i 30% (tua dau neu dri mewn 10) o fabanod â'r cyflyrau hyn yn cael eu nodi gan y prawf sgrinio.

Beth yw manteision cael prawf sgrinio ar gyfer y cyflyrau hyn?

Os bydd gan eich babi un o'r cyflyrau hyn, gallwch wneud dewisiadau am eich beichiogrwydd. Er enghraifft, gallwch benderfynu a ddylid paratoi ar gyfer genedigaeth eich babi gydag un o'r cyflyrau hyn neu roi terfyn ar eich beichiogrwydd.

Beth yw anfanteision cael prawf sgrinio ar gyfer y cyflyrau hyn?

Gall cael y prawf eich gwneud yn bryderus, yn enwedig os cewch ganlyniad sy'n dangos bod gennych siawns uwch o gael babi ag un o'r cyflyrau hyn. 'Siawns uwch' yw sut rydym yn disgrifio'ch canlyniad os yw rhwng 1 mewn 2 ac 1 mewn 150. Os yw'r canlyniad rhwng 1 mewn 2 ac 1 mewn 150, cewch gynnig naill ai:

- dim rhagor o brofion
- prawf sgrinio arall o'r enw prawf cynenedigol anfewnwthiol (NIPT), sy'n fwy cywir na'r prawf cyfunol neu'r prawf pedwarplyg, neu
- brawf mewnwthiol i weld a yw'ch babi yn bendant ag un o'r cyflyrau hyn.

Oherwydd bod siawns fach y gallai'r prawf mewnwthiol, o'r enw amniosentesis neu'r prawf samplu filws corionig, achosi comesgoriad, mae hwn yn benderfyniad anodd i lawer o fenywod.

A ddylwn gael y prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13)?

Dim ond chi all benderfynu cael y prawf sgrinio ai peidio. Mae rhai menywod am gael gwybod a oes gan eu babi'r cyflyrau hyn, ac nid yw eraill am wybod hyn. Mae pob ysbyty yng Nghymru yn cynnig prawf sgrinio i fenywod, ond chi sy'n penderfynu a ddylid cael y prawf ai peidio. Gallwch drafod â'ch bydwraig yr hyn rydych am ei wneud. Bydd eich penderfyniad yn cael ei barchu a bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cefnogi beth bynnag yw'ch penderfyniad.

Yn achlysurol, gall y sganiau a gewch yn ystod beichiogrwydd weld pethau a all nodi y gallai'ch babi fod ag un o'r cyflyrau hyn ac mae'n bosibl y cewch gynnig prawf mewnwthiol bryd hynny.

Canlyniadau

Rhoddir y canlyniadau naill ai fel 'siawns uwch' neu 'siawns is'.

Beth sy'n digwydd os caf ganlyniad siawns is?

Os yw'ch canlyniad yn dangos bod gennych siawns is o gael babi â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau, ni chynigir rhagor o brofion. Cofiwch nad yw cael siawns is yn golygu nad oes gennych siawns o gael babi ag un o'r cyflyrau hyn.

Beth sy'n digwydd os caf ganlyniad siawns uwch?

Os yw'ch canlyniad prawf yn dangos bod gennych siawns uwch o gael babi neu fabanod ag un o'r cyflyrau y cynhelir y profion sgrinio ar eu cyfer (hynny yw, siawns o 1 mewn 2 i 1 mewn 150), cewch gynnig apwyntiad gyda bydwraig neu feddyg ysbyty (obstetregydd). Byddant yn esbonio'ch canlyniad prawf i chi'n fanwl, gan gynnwys eich siawns unigol, a gallwch drafod a ydych am gael prawf sgrinio mwy cywir, sef prawf cynenedigol anfewnwthiol (NIPT), neu driniaeth fewnwthiol

(prawf samplu filws corionig neu amniosentesis), a fydd yn rhoi canlyniad pendant i chi, ond mae'n cynnwys risg fach y byddwch yn camesgor. Mae'n bosibl y byddwch yn wynebu rhai penderfyniadau anodd ar ôl triniaeth fewnwthiol y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt ymlaen llaw.

Po isaf y rhif, uchaf y siawns. Felly, er enghraifft, mae 1 o bob 80 yn siawns uwch y bydd gan eich babi syndrom Down nag 1 o bob 140.

Mae rhwng 2% a 4% o fenywod (rhwng dwy a phedair mewn 100) sy'n cael y profion sgrinio cyfunol neu bedwarplyg yn cael canlyniad sy'n dangos bod ganddynt siawns uwch o gael babi ag un o'r cyflyrau hyn.

Prawf cynenedigol anfewnwthiol (NIPT)

Prawf sgrinio arall yw NIPT ac ni fydd yn rhoi canlyniad pendant. Fodd bynnag, mae'n fwy cywir na'r prawf cyfunol neu bedwarplyg. Mae'n brawf gwaed a gymerir gennych yn y modd arferol – bydd gan eich gwaed rywffaint o DNA eich babi (deunydd genetig o'r brych). Mae'r labordy'n sgrinio'r sampl gwaed hon i ddweud wrthyhych a oes siawns 'uchel' neu 'isel' bod gan eich babi syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Os byddwch yn dewis y prawf hwn, mae'n cymryd tua dwy wythnos i gael y canlyniad fel arfer. Mewn tua 0.3% (1 mewn 300) o feichiogrwydd, ni fydd y prawf NIPT yn gallu rhoi canlyniad a chewch gynnig prawf mewnwthiol neu efallai y byddwch yn penderfynu peidio â chael rhagor o brofion.

Os yw canlyniad y prawf NIPT yn siawns uchel, cewch gynnig prawf mewnwthiol i ddweud wrthyhych yn bendant a oes gan eich babi un o'r cyflyrau hyn. Os penderfynwch beidio â chael prawf mewnwthiol, cewch eich cefnogi yn eich penderfyniad, a gallwn roi cymaint o wybodaeth ag y dymunwch am y syndrom y mae'r prawf NIPT yn dweud bod siawns uchel ohono.

Os yw canlyniad y prawf NIPT yn siawns isel, mae'n annhebygol y bydd gan eich babi syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau ac ni chewch gynnig rhagor o brofion.


Pa driniaethau mewnwthiol a gynigir i mi os yw canlyniad y prawf sgrinio'n siawns uwch neu uchel?

Yn dibynnu ar nifer yr wythnosau rydych wedi bod yn feichiog, cewch gynnig naill ai prawf samplu filws corionig neu driniaeth amniosentesis (gweler adran 7).

Beth fyddai canlyniad prawf mewnwthiol yn ei ddweud wrthyf?

Byddai'r canlyniad yn dweud wrthyf a yw'ch babi neu'ch babanod â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau. Os yw'ch babi neu'ch babanod ag un o'r cyflyrau hyn, cewch benderfynu a ydych am baratoi ar gyfer genedigaeth eich babi neu roi terfyn ar eich beichiogrwydd.

Adran 7 – Profion mewnwithiol



Beth yw samplu filws corionig?

Mae prawf samplu filws corionig yn driniaeth pan fo meddyg ysbyty (obstetregydd) yn tynnu swm bach o feinwe o'ch brych yn ystod eich beichiogrwydd. Mae'r celloedd yn y feinwe hon yn cael eu profi yn y labordy i chwilio am y cyflwr y mae gennych siawns uwch ohono. Fel arfer, gallwch gael y prawf samplu filws corionig pan fyddwch wedi bod yn feichiog ers 11 wythnos a chyn 14 wythnos.

Mae cael CVS yn creu risg ychwanegol o gamesgoriad sy'n debygol o fod yn is na 0.5% (tua 1 mewn 200) o feichiogrwydd).

Mae'r risg ychwanegol o gamesgoriad ar ôl CVS mewn beichiogrwydd gyda gefeilliaid tua 1% (1 mewn 100) o feichiogrwydd.

Beth yw amniosentesis?

Mae amniosentesis yn driniaeth i dynnu tua 15 i 20 mililitr (hynny yw, tair i bedair llwy de) o hylif amniotig o'r ardal o amgylch eich babi yn y groth. Gellir profi'r celloedd o'ch babi sy'n arnofio yn yr hylif hwn yn y labordy i chwilio am y cyflwr y mae gennych siawns uwch ohono. Gellir ei gynnal pan fyddwch wedi bod yn feichiog am 15 wythnos.

Mae cael amniosentesis yn creu risg ychwanegol o gamesgoriad sy'n debygol o fod yn is na 0.5% (tua 1 mewn 200) o feichiogrwydd.

Mae'r risg ychwanegol o gamesgoriad ar ôl amniosentesis mewn beichiogrwydd gyda gefeilliaid tua 1% (tua 1 mewn 200) o feichiogrwydd.

Adran 8 – Rhagor o wybodaeth

Gallwch hefyd gael gwybodaeth am brofion sgrinio gan eich bydwraig neu'ch meddyg ysbyty (eich obstetregydd) ac o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru: icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

Os byddwch yn symud cartref

Os byddwch yn symud cartref yn ystod eich beichiogrwydd, dywedwch wrth eich bydwraig er mwyn iddi allu diweddarw'ch cofnodion meddygol.

Profion preifat

Mae ansawdd y prawf sgrinio a gynigir gan y GIG yng Nghymru yn cael ei fonitro. Mae rhai menywod yn talu'n breifat i gael profion sgrinio. Nid yw profion sgrinio a gynhelir gan glinigau preifat yn cael eu monitro gan y GIG. Mae hyn yn golygu na fydd gan eich bydwraig wybodaeth am ansawdd a chywirdeb profion sgrinio a gynhelir gan glinigau preifat.

CARIS yw Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid a'r gofrestr clefydau prin yn ystod plentynod ar gyfer Cymru.

Mae CARIS yn casglu gwybodaeth am anomaleddau cynhenid a chlefydau prin. Mae'r wybodaeth a gedwir ar gofrestr CARIS yn gwbl gyfrinachol. Ni fyddwn byth yn trosglwyddo eich enw i unrhyw un arall na'i gyhoeddi.

Rydym yn gobeithio y bydd pawb am gael eu cynnwys i'n helpu i gynllunio a gwella gwasanaethau i rieni a phlant yn y dyfodol. Os hoffech i ni ddileu eich manylion o'r gofrestr, cysylltwch â thîm CARIS.

Gwefan: icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-gwybodaeth-a-chofrestr-anomaleddau-cynhenid-cymru-caris/am-caris

E-bost: caris@wales.nhs.uk

Ffôn: 01792 285241

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hysbysiad preifatrwydd lechyd Cyhoeddus Cymru, ewch i:-

icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd

Neu ysgrifennwch at:

Y Swyddog Diogelu Data
Ymddiriedolaeth GIG lechyd Cyhoeddus Cymru
2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall,
Caerdydd CF10 4BZ

